# Egluro Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol

**Mae pob cartref a busnes ym Mhrydain Fawr yn dibynnu ar ynni glân, fforddiadwy a dibynadwy.**

Mae trydan a nwy yn teithio ar draws Prydain Fawr drwy rwydweithiau. Mae rhwydweithiau trawsyrru fel traffyrdd ynni sy'n cludo ynni'n bell, ac mae rhwydweithiau dosbarthu lleol yn dod ag ynni i'n drws ffrynt.

Mae rhwydweithiau dosbarthu lleol wedi datblygu dros amser, ond rhaid iddynt nawr newid yn llawer cyflymach ac ar raddfa fwy. Bydd angen iddynt gefnogi cartrefi newydd a busnesau sy'n ehangu, yn ogystal â'r broses o symud i gerbydau trydan a phympiau gwres. Mae angen i'r rhwydweithiau hefyd ddelio â mwy o ynni adnewyddadwy yn cael ei gynhyrchu'n lleol ynghyd â batris. Ar yr un pryd, mae busnesau a diwydiannau yn troi tuag at dechnolegau glân; ac mae diwydiannau a thechnolegau newydd yn dechrau dod i'r amlwg.

Mae'r newidiadau hyn yn golygu bod rhaid i ni newid y ffordd rydym yn cynllunio a buddsoddi mewn rhwydweithiau dosbarthu lleol.


## Beth yw Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol (RESPs)?

Mae Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol yn ffordd newydd o gynllunio rhwydweithiau ynni lleol ar draws Prydain Fawr. Yn NESO, ein gwaith ni yw arwain y cynlluniau hyn.

Bydd Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol yn:

- rhoi llais i bobl leol mewn cynlluniau ynni strategol
- cydlynu cynlluniau ar gyfer gwahanol fathau o ynni – trydan, nwy a hydrogen
- defnyddio data, modelau a gwybodaeth leol i ddangos lle mae angen buddsoddi.

Bydd rhanddeiliaid yng Nghymru a'r Alban ac mewn naw rhanbarth yn Lloegr yn ein helpu i ddatblygu cynlluniau ar sail eu hanghenion a'u blaenoriaethau eu hunain. Bydd hyn yn cefnogi twf economaidd lleol a'r broses o newid i ddyfodol ynni cynaliadwy.



Edrychwch ar ein hanimeiddiad ar gyfer y Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol

NESO
National Energy System Operator

## Pam mae angen y cynlluniau hyn arnom

Wrth i'r galw am drydan a nwy newid, rhaid i'r system ynni newid hefyd. Mae angen cynllunio'r holl rannau gwahanol fel un system integredig. Mae angen i ni hefyd sicrhau cysondeb ar draws y gwahanol gwmnïau rhwydwaith ynni sy'n rhan o'r system.

Bydd Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol yn helpu i wneud yn siŵr:

- bod rhwydweithiau ynni lleol yn cael eu hadeiladu lle bynnag a phryd bynnag y bydd eu hangen
- bod cymunedau yn gallu elwa o ynni glân, dibynadwy a fforddiadwy
- bod ynni ar gael i helpu busnesau i ehangu.

Mae hyn yn helpu i ddarparu system ynni sy'n gweithio i bobl, i leoedd, ac i fusnesau ar draws Prydain Fawr.

## Cysylltiadau'r Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol â chynlluniau eraill


Mae'r Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol yn cysylltu blaenoriaethau lleol â chynlluniau cenedlaethol. Maent yn cydblethu â dau o gynlluniau eraill NESO:

- Bydd y Cynllun Ynni Gofodol Strategol (SSEP) yn dangos sut mae diwallu anghenion ynni Prydain Fawr yn y dyfodol, a lle mae angen ynni newydd
- Bydd y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (CSNP) yn egluro blaenoriaethau rhwydweithiau trawsyrru ar draws Prydain Fawr.

Gyda'i gilydd, mae'r cynlluniau hyn yn creu darlun cydlynol o'n system ynni yn y dyfodol.

## Beth sy'n rhan o bob Cynllun Ynni Strategol Rhanbarthol


Bydd pob Cynllun Ynni Strategol Rhanbarthol yn helpu gweithredwyr rhwydweithiau i gynllunio eu buddsoddiadau yn y rhwydweithiau yn y dyfodol.




Bydd y cynlluniau yn cynnwys:

- **Cyd-destunau cenedlaethol a rhanbarthol** - er mwyn deall y defnydd presennol o ynni, blaenoriaethau lleol ac anghenion y dyfodol
- **Llwybrau** - a fydd yn dangos sut mae disgwyl i'r galw am ynni a'r cyflenwad esblygu gyda thechnolegau newydd, fel pympiau gwres a cherbydau trydan
- **Cyd-destun gofodol** - mapiau sy'n dangos lle gallai anghenion ddod i'r amlwg ar y rhwydweithiau
- **Anghenion buddsoddi strategol** - a fydd yn amlinellu lle gallai fod angen buddsoddi mewn rhwydweithiau
- **Rhagdybiaethau cyson** - i helpu perchnogion rhwydweithiau i gynllunio eu rhwydweithiau mewn ffordd gyson.

## Sut byddwn yn datblygu'r cynlluniau



Mae mewnbwn rhanddeiliaid yn allweddol i'r Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod ein cynlluniau'n weladwy a thryloyw, a'u bod yn rhoi cyfle i bobl siapio'r gwaith hwn ar bob cam.

Byddwn yn:

- Gweithio gydag awdurdodau lleol, cymunedau a rhwydweithiau ynni
- Cynnal digwyddiadau, gweminarau a gweithdai
- Cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ar bob cynllun drafft er mwyn i bobl gael dweud eu barn.

## Dyddiadau pwysig

Eich ardal chi a'ch ynni chi sy'n hoelio'r sylw mewn Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol. Drwy gynllunio nawr gallwn sicrhau manteision yn gynt. Mae hyn yn cefnogi cymunedau lleol ac yn helpu twf, a bydd yn creu dyfodol ynni sicr a chynaliadwy i Brydain Fawr.

Bydd y Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol cyntaf yn cael eu cyhoeddi gennym tua diwedd 2028. Bydd y cynlluniau'n cael eu diweddaru bob tair blynedd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn dal yn berthnasol ac yn effeithiol.

## Unrhyw gwestiynau? Cysylltwch â ni

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â'n tîm.

neso.energy/national-and-regional-planning

box.resp@neso.energy

RESPCY01 | Mehefin 2026